# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Adio – adio 1 at rifau hyd at 20.** |
| Adnoddau: | • Numicon.<br>• Cownteri/blociau.<br>• Peli a hwpiau/bwcedi.<br>• Basgedi bach/rhubanau a phegiau.<br>• Cardiau fflach 'symiau' adio 1 at bob rhif o 0 i 20 – gweler y ddogfen *'Adio 1 – cardiau fflach'.*<br>• 20 o hwpiau/smotiau bach ar lawr.<br><br>**<u>Adnoddau digidol:</u>**<br>• Cyflwyniad ar adio un – gweler y ddogfen *'Adio 1 – cyflwyniad'.*<br>• Llinell rif ddigidol: https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/ |
| Camau: | **<u>Cam 1</u>**<br>Dilyn llinell rif weledol hyd at 20.<br>Rhifo hyd at 20 ac yn ôl (mae'n bwysig ymarfer rhifo am nôl).<br>Tynnu sylw at rifau ar hap – pwyntio atynt, a gofyn i ddysgwyr 'Pa rif yw hwn?'<br>NEU ddweud rhif a gofyn i ddysgwr ddod allan i bwyntio ato.<br>Chwilio am numicon sy'n creu'r rhif hwnnw, e.e. 18 yw numicon 10 + numicon 8.<br><br>**<u>Cam 2: Adio 1</u>**<br>Cynhesu drwy adolygu adio 1 gyda rhifau hyd at 10:<br>• Defnyddio rhan gyntaf y cyflwyniad digidol (1-10) a thrafod.<br>• Gwneud pob un o'r gweithgareddau uchod (Cam 1) eto, ond y tro hwn, adio un at bob rhif.<br>• Dechrau gwneud yr uchod gyda rhifau hyd at 20.<br><br>**<u>Cam 3: Gweithgareddau</u>**<br>Gweithio gyda'r dysgwyr mewn grwpiau.<br>Rhoi cownteri neu flociau i'r dysgwyr. Gofyn iddynt ddweud y rhif/nifer, yna adio un ato. Cyfrif eto er mwyn darganfod yr ateb.<br>Dweud y cyfrifiad allan yn uchel e.e. 'Un deg dau adio un yn hafal i 13.'<br>**<u>Ymestynnol:</u>** Gofyn iddynt nodi hyn ar fwrdd bach gwyn. |



| | |
|---|---|
| | **Cam 4: Pegiau**<br>Rhoi basged fach/rhuban yr un i bob plentyn. Dangos 'sym' iddynt. e.e. 13 + 1. Gofyn iddynt weithio hyn allan drwy roi pegiau ar y rhuban/basged e.e. 13 peg adio 1 peg arall yn hafal i 14.<br><br>**Cam 5: Ardal allanol**<br>Angen 20 smotyn ar lawr/hwpiau bach y gellir neidio i fewn ac allan ohonyn nhw. Tynnu sym allan o sach. Gosod hwpiau/smotiau ar lawr i gynrychioli'r sym, e.e 15 + 1 – gosod 15 hwb/smotyn ar lawr a neidio arnynt/drwyddynt gan gyfrif yn uchel. Yna adio un ato a gwneud hyn eto gan wirio'r ateb. Gwneud hyn gyda phob sym gwahanol.<br><br>**Cam 6: Peli/Bagiau ffa**<br>Peli/Bagiau ffa a bwced – rhoi niferoedd o beli/bagiau ffa hyd at 20 mewn amrywiol fwcedi. Gofyn i'r dysgwyr daflu un ychwanegol i fewn. Yna gofyn iddynt gyfri a chofnodi - Sawl un sydd yna nawr? |
| Cwestiynu: | • Faint yw _____ adio 1?<br>• Wyt ti'n gallu dangos 14 adio 1 i fi gyda'r pegiau?<br>• Sawl pêl sydd yma i gyd? |
| Beth nesaf? | Dysgu bondiau rhif 5. |

